PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 20 MEHEFIN 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | D. Hugh Thomas (Dirprwy Gadeirydd)<br>Gavin McArthur a/ac David Pric |
| | Y Cynghorwyr Cowan, Cunnah, Howells, McGarry a/ac Dianne Rees |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ian Arundale.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 11.2 | Llywodraethwr Ysgol |

3 : PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD – bod Ian Arundale yn cael ei benodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017/18 a phenodir D.Hugh Thomas yn Ddirprwy Gadeirydd.

4 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Dirprwy Gadeirydd.

5 : MATERION GWEITHREDOL

Ni adroddwyd ar unrhyw faterion sefydliadol.

Cyllid

6 : CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu amlinelliad o'r gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas â pharatoi'r gyllideb ar gyfer 2018/19 a chynghori'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chanlyniad cyllideb y Cyngor 2016/17

Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfrifon 2016/17 wedi cau ac yr ymgymerir â gwaith mewn perthynas â pharatoi'r datganiad cyfrifon. Y sefyllfa o ran y canlyniad a ragamcanwyd oedd y byddai cyllideb gytbwys heb unrhyw addasiadau i'r gronfa gyffredinol wrth gefn. Bydd cronfeydd wrth gefn a glustnodir yn cynyddu gan tua £7 miliwn. Caiff y sefyllfa ynglŷn â'r canlyniad ei adrodd i'r Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017 a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi i'r Pwyllgor Archwilio ar y pwynt cyhoeddi.

Nododd y swyddog fod gwaith ar y sefyllfa monitro ariannol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2017/18 ar gam cynnar o hyd. Caiff diweddariadau eu darparu i'r Pwyllgor drwy gydol y

flwyddyn.  Roedd paratoadau ar gyfer y cyllideb 2018/19 ar y gweill.  Caiff adroddiad sy'n amlinellu'r strategaeth cyllideb arfaethedig ei gyflwyno i'r Cabinet ar 27 Gorffennaf 2017.  Rhestrwyd crynodeb byr o'r prif faterion a meysydd i'w hystyried yn yr adroddiad.  Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi y gellir gofyn am drawsnewidiadau polisi yn ystod y cyfnod i 2020/21 yn dilyn sefydlu gweinyddiaeth newydd ym mis Mai 2017.

Gofynnodd Aelod pam y cynlluniwyd i'r adroddiad strategaeth cyllideb i'w dderbyn gan y Cabinet ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor.  Awgrymwyd y gellid dod â'r adroddiad i gyfarfod cynharach y Cyngor fel y gall  yr Aelodau gael cyfle cynnar i graffu ar y cynigion.  Dywedodd y swyddogion, cyn yr etholiad, cynigiwyd peidio â chael cyfarfod o'r Cyngor ym mis Gorffennaf.  Felly, y bwriad oedd yr eid ag adroddiad strategaeth y gyllideb i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Medi.  Mynegodd Aelod ei siom na fyddai unrhyw gyfle i'r Cyngor ystyried yr adroddiad strategaeth y gyllideb cyn cyfarfod mis Medi y Cyngor.  Gofynnodd yr Aelod i'w sylwadau gael eu nodi.

PENDERFYNWYD – Nodi'r sefyllfa gyfredol ynglŷn â'r adroddiad ar y canlyniad ar gyfer 2016/17 a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â monitro'r gyllideb yn 2017/18 a strategaeth y gyllideb ar gyfedr 2018/19.

7 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i Aelodau adolygu a rhoi sylwadau ar y Datganiad Cyfrifon Staff 2016/17 cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno'n ffurfiol ar gyfer archwilio allanol ac arolygu cyhoeddus.  Cafodd y Datganiad Cyfrifon ei atodi fel atodiad 1 i'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi adolygiad Datganiad Cyfrifon y Cyngor fel swyddogaeth benodol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.  Ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaed rhagor o gynnydd i symleiddio'r ddogfen trwy ddileu gwybodaeth ddiangen ac amherthnasol.  Caiff y Datganiad o Gyfrifon eu paratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol CIPFA.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys adroddiad naratif sy'n rhoi esboniad cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor, ynghyd â chanllaw i'r adroddiadau ariannol sy'n gynwysedig yn y cyfrifon.  Mae'r datganiadau ariannol yn dod ynghyd â nodiadau sy'n rhoi rhagor o fanylion ar y cyfrifon.  Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys sefyllfa ariannol Bws Caerdydd; Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a datganiadau parthed y Cyfrif Refeniw Tai (HRA), Cronfeydd Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd.

Mae gofyn i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol lofnodi'r cyfrifon erbyn 30 Mehefin 2017.  Rhoddwyd drafft o'r cyfrifon i Swyddfa Archwilio Cymru ar 15 Mehefin 2017.  Rhestrodd yr adroddiad y camau nesaf fel a ganlyn:

- Hysbysebu'r cyfle am arolygiad cyhoeddus am gyfnod o bedair wythnos
- Cwblhau holl ffurflenni cyfrifon y llywodraeth, yn seiliedig ar y cyfrifon drafft fis Gorffennaf 2017
- Caiff yr holl ddiwygiadau ac addasiadau sylweddol i'w cytuno gan Swyddfa Archwilio erbyn diwedd mis Awst 2017
- Y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y cyfrifon terfynol a'r adroddiad archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi
- Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo ac yn llofnodi'r cyfrifon a archwilir yn ei gyfarfod fis Medi

- Cyhoeddi'r cyfrifon a gymeradwywyd erbyn 30 Medi 2017

Gwahoddwyd aelodau i wneud sylwadau, ceisio eglurhad neu sylwadau ar yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Ceisiodd aelodau eglurhad ynglŷn â chyhoeddi prisiad Bws Caerdydd, a oedd wedi cael ei godi'n gynharach gan y Pwyllgor.
- Dywedodd Swyddogion nad oedd newidiadau i god CIPFA a oedd yn debygol o effeithio ar brisiad Bws Caerdydd, i fod i ddod i rym tan fis Ebrill 2018, ac roeddent yn amodol ar gael eu cymeradwyo. Roedd y Datganiad Cyfrifon drafft yn seiliedig ar y cod presennol. Cytunodd swyddogion i roi diweddariad arall i'r Pwyllgor ar y mater hwn. Nododd yr aelodau bod y Datganiad Cyfrifon yn dangos bod yr awdurdod yn dal gwargedau o ran asedau na ddelir i'w gwerthu sef tua £40 miliwn a bod asedau a delir i'w gwerthu yn gyfanswm o £80,000. Ceisiodd yr aelodau sicrhad bod rheolaethau digonol ar waith. Dywedodd swyddogion fod y cyfansymiau'n adlewyrchu'r categoreiddiadau sy'n ofynnol gan God Ymarfer CIPFA. Yr asedau yw'r rhai a ddelir gan yr awdurdod ond ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd at ddibenion gweithredol. Unrhyw asedau a 'ddelir i'w gwerthu' yw'r rhai i'w gwerthu yn ystod y 12 mis nesaf sy'n bodloni'r pedwar maen prawf a restrir yn y cod. Gan ymateb i gwestiwn arall gan y Pwyllgor, dywedodd swyddogion fod y broses ar gyfer rheoli rhyddhau asedau wedi'i rhestru yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Cafodd eiddo buddsoddi – eiddo a ddelir er mwyn darparu incwm – ei reoli o dan y Strategaeth Eiddo Buddsoddi. Cynigiodd swyddogion darparu hyperddolenni i'r ddwy ddogfen i Aelodau'r Pwyllgor.

- Gofynnodd aelodau am eglurhad o'r rhesymwaith a ddefnyddiwyd i ailbrisio asedau. Dywedodd y swyddogion yn nhermau ailbrisio gwaith celf, mae'r asedau yn cael eu prisio at ddibenion yswiriant. Defnyddiwyd y pris hwnnw fel sail i'r prisiad, a oedd wedi arwain at gynnydd. Caiff eiddo buddsoddi eu prisio bob pum mlynedd gan yr Adran Ystadau a chwmni prisio annibynnol. Mae rhaglen dreigl ar gyfer prisio cartrefi a berchnogir gan y cyngor, sydd i ddigwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Cymeradwyodd aelodau yr adroddiad naratif a ddaeth gyda'r Datganiad Cyfrifon. Gwnaed cais bod yr adroddiad naratif yn cynnwys nodyn esboniadol sy'n esbonio pam na ellir defnyddio 'cronfeydd na ellir eu defnyddio' o £581 miliwn mewn gwirionedd. Cytunodd swyddogion i ddiwygio'r adroddiad naratif i gynnwys esboniad o'r fath.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'w diolchiadau i'r swyddogion am gyflawni'r terfyn amser gofynnol ac am y cynnydd da a wnaed wrth symleiddio'r Datganiad Cyfrifon gael eu nodi.

PENDERFYNWYD:

(1) yn amodol ar y sylwadau a dderbynnir ynghylch y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2016/17 mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Cyfrifon hyn i gael eu llofnodi gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'u cyflwyno ar gyfer archwiliad allanol a chyhoeddus.

(2) caiff y Datganiadau Cyfrifon ar gyfer 2016/17 eu hadolygu gan y Pwyllgor hwn ym mis Medi cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor;

Llywodraethu a Rheoli Risg

8 : LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar adolygiad y Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr (SMAS) ar gyfer 2016/17. Mae'r SMAS yn gydran allweddol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) gan ddarparu hunanasesiad gan yr Uwch Dîm Rheoli. Gofynnwyd i aelodau ystyried a yw'r AGS yn adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn gywir ac yn cymryd i ystyriaeth farn archwilio ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y Cyngor o lywodraethu, risg a rheolaeth fewnol. Mae gofyn hefyd i'r Pwyllgor ystyried trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor o'u cymharu â fframwaith llywodraethu da.

Dywedwyd wrth aelodau, yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2017, derbyniodd y Pwyllgor gopi o'r AGS drafft ac adroddiad ar y newidiadau i asesiadau aGS.

Hefyd, rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r broses SMAS a'r cynllun gweithredu i Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd i aelodau nodi fod 23 o ddatganiadau sicrwydd a atebwyd gan bob Cyfarwyddwr. Cafodd crynodeb o'r datganiadau SMAS, Datganiad Uwch-Reolwyr a Chynllun Gweithredu a'r materion sylweddol a nodwyd eu hatodi i'r adroddiad. Dangosodd y canlyniadau cymhwyso 'cryf' llywodraethu da ar draws yr meysydd sicrwydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am yr adroddiad. Mae'r rhain wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gofynnwyd i'r swyddogion pa mor hyderus yr oeddent bod sgorio cyson o'r SMAS ar draws cyfarwyddiaethau a pha rheolaethau sydd ar waith.
- Dywedodd y swyddogion bod y cwestiynau hyn wedi'u gofyn gan y Prif Weithredwr. Yn ystod trafodaethau gyda'r Uwch Dîm Rheoli, darparwyd esboniad o'r broses hunanasesu yn nhermau'r lefelau a'r sicrwydd a roddwyd. Gofynnod yr aelodau a oedd yn bosibl y gallai amgylchiad godi lle y gallai'r Cyfarwyddwr a'r rheolwr sy'n gweithio oddi tano ddod i sgôr gwahanol. Dywedodd y Swyddogion y dylai Cyfarwyddwyr a rheolwyr ymgynghori â'u timau rheoli a dylai'r SMAS adlewyrchu crynodeb o'r asesiadau ar gyfer y gwasanaethau maent yn cyfrifol amdanynt. Gofynnwyd i swyddogion ymhelaethu ar y ffigwr cymhwyso cyfyngedig o 14% ar gyfer monitro'r gyllideb. Dywedwyd wrth aelodau bod y ffigwr yn perthyn i ymatebion gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn nhermau monitro cyllidebau a chyflawni arbedion chyllidebol. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r materion o fewn y Gyfarwyddiaeth.

- Dangosodd Swyddogion, er bod 5 achos o gymhwyso cyfyngedig a restrir yn y ddogfen crynhoi, nid oedd unrhyw beth i awgrymu bod perfformiad gwael mewn unrhyw gyfarwyddiaeth benodol yn cael ei guddio. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol fod disgwyliad, os caiff perfformiad gwael ei nodi, câi ei gynnwys yn y ddogfen materion sylweddol.

- Cadarnhaodd swyddogion bod gwaith yn cael ei wneud i arfarnu a yw hunanasesiadau SMAS a Chynllun Gwaith yr Archwiliad Mewnol mewn aliniad.

- Gan gyfeirio at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a pharagraff 18 yr adroddiad, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad am ystyr yr ymadrodd ‘ar y gweill yn sylweddol’. Dywedodd Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru fod dwy ran o daer o’r camau gweithredu o Adroddiad Dilynol Asesu Corfforaethol SAC wedi’u cwblhau. Mae dialog rhwng SAC, y Prif Weithredwr a Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn parhau. Cytunodd Steve Barry i ddarparu adroddiad ar weithredu'r cyfryw gamau gweithredu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor fis Medi.

PENDERFYNWYD – nodi sylwadau’r Pwyllgor ar Ddatganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr, Datganiad yr Uwch Reolwyr a Chynllun Gweithredu Materion Llywodraethu Sylweddol.

9 : COFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy’n rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran rheoli risg ar Chwarter 4 2016/17. Hefyd dywedodd yr adroddiad wrth y Pwyllgor ar ffurfioli proses esgoli risg newydd a gyflwynwyd yn Chwarter 4. Cafodd y broses ei ffurfioli er mwyn sicrhau bod yr UDRh yn derbyn gwybodaeth a dadansoddiad ar risg sy’n systematig ac yn amserol gan bob Cyfarwyddiaeth ar sail blaenoriaeth risg.

Dywedwyd wrth yr aelodau y cafodd 319 o risgiau eu hadrodd o gofrestrau Risg y Gyfarwyddiaeth. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am adolygu ac esgoli risgiau yn unol â’r broses a adfywiwyd.

Cafodd cyfanswm o 14 o risgiau eu hesgoli i’r UDRh a chafodd pob un eu hadolygu a’u trafod ar y cyd. Cytunwyd ar risg corfforaethol newydd ar seiber-ddiogelwch a'i ychwanegu at y gofrestr risgiau gorfforaethol. Yn dilyn presenoldeb Rheolwr y Gwasanaeth TGCh yn y Grŵp Llywio Rheoli Risg ym mis Ionawr 2017, cytunwyd ar gam gweithredu ar gyfer ei bresenoldeb yn yr UDRh er mwyn arwain ac ynganu cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd. Hefyd esgolwyd risg ar arall ar ‘anghydymffurfio â chynnal a chadw offer adeiladu’ i’r Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) yn adolygiad chwarter 4.

Roedd 24 o risgiau corfforaethol ar waith cyn adolygiad chwarter 4. Adolygodd pob perchennog risg eu risgiau corfforaethol presennol a naratifau rheoli a chafodd camau gweithredu gwella eu diweddaru, gan gynnwys: rhai ychwanegiadau risg a risgiau’n cael eu dileu o’r CRR; newidiadau i rai enwau/teitlau risgiau; a chynnydd o ran y sgôr risg Llywodraethu Gwybodaeth o B2 i B1. Darparwyd rhagor o fanylion o bob un o’r diweddariadau i’r CRR yn yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad. Cododd yr aelodau gwestiynau a cheisio eglurhad ar nifer o bwyntiau. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau pa mor ymatebol yw’r awdurdod i risgiau sy’n dod y tu allan i’r gofrestr risgiau a sut mae’r awdurdod yn sicrhau bod y gofrestr risgiau’n adlewyrchu materion cyfredol.
- Dywedodd Swyddogion fod y CRR yn cynrychioli’r Risgiau Cyfarwyddiaeth hynny a gafodd eu hesgoli i’r UDRh/Cyfarwyddwyr ymateb. Mae’r CRR yn ddeinamig ac yn cynrychioli crynodeb o faterion â thema.
  Gofynnodd y Rheolwr pam na chafodd digwyddiadau naturiol eu hadlewyrchu fel risg ar y lefel uchaf yn y CRR. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan yr Uned Rheoli Brys gynlluniau ar waith er mwyn ymateb i ddigwyddiadau naturiol. Mae’r CRR yn cynrychioli'r risgiau i gyflawni amcanion corfforaethol.

- Gofynnodd Aelod a oedd y broses CRR yn gallu rhoi bygythiadau a ddaw i'r amlwg ar lwybr carlam. Dywedodd Swyddogion fod y CRR yn ymatebol ac enghraifft dda o hyn oedd adwaith diweddar yr UDRh i drychineb Tŵr Grenfell. Trafododd yr UDRh sefyllfa'r awdurdod ar unwaith a chytunwyd bod grŵp swyddogion yn cael ei sefydlu.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes gan yr awdurdod Gynllun Adfer ar ôl Trychinebau ar waith ac a oedd dealltwriaeth glir o'r blaenoriaethau ar gyfer adfer gwasanaethau y gellir effeithio arnynt.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod cynllun ar waith ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y risg dilyniant busnes, a gaiff ei adolygu'n gyfnodol.
  Gofynnodd Aelod am adroddiad ar faterion diogelu i'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ac i'r Cyfarwyddwr gael ei wahodd. Ar ôl ystyried Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, bydd y Dirprwy-gadeirydd yn pennu a yw hyn yn fusnes i'r Pwyllgor Archwilio neu a ddylid ei gyfeirio at y Pwyllgorau Craffu priodol.

- Hefyd, awgrymodd aelodau'r Pwyllgor y gallai KPIs gael eu defnyddio dracio effaith yr adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd yng nghyllideb 2017/18 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a gwnaed cais y dylai unrhyw adroddiad yn y dyfodol gyfeirio at y KPI hynny. Gallai data'r KPI gael ei ddefnyddio i arfarnu gallu'r gwasanaeth i gyflawni ei swyddogaethau.

- Ystyriodd Aelod, yn nhermau risg SOP Ysgolion, roedd ond ychydig i nodi cydnabyddiaeth am y cynnydd o ran plant ag awtistiaeth neu ag anghenion arbennig, ac, at hynny, ond ychydig o gydnabyddiaeth o'r oedi rhwng y datblygiadau tai newydd a gymeradwyir o dan y CDLl a darparu lleoedd mewn ysgolion uwchradd. Cytunodd swyddogion i godi'r materion hynny gyda'r Cyfarwyddwr Addysg.

- Gan gyfeirio at y sgôr risg, gofynnodd yr Aelodau a allai risg gweddilliol fyth fod yn fwy na risg cynhenid. Yn y matrics, roedd y risg gweddilliol a'r risg cynhenid ar gyfer newid yn yr hinsawdd yr un peth. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y rheolaeth y ddigonol. Derbyniodd y swyddogion y pwynt a wnaed. Roedd perchennog y risg o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i'w gynnig.

PENDERFYNWYD:

(1) Bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol;

(2) Bod y Dirprwy Gadeirydd yn ystyried Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac yn pennu a gyfeirir at y mater o ddiogelu rheoli risgiau gan Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Swyddfa Archwilio Cymru

10 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Matthew Coe a Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Blynyddol SAC 2017. Rhoddodd Matthew Coe crynodeb o drosolwg y Cynllun Archwilio i'r Aelodau.

Amlygodd Steve Barry astudiaethau'r llywodraeth leol a restrir yn Arddangosyn 5 y Cynllun fel adroddiadau sy'n debygol o fod o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor, yn benodol yr Astudiaeth ar Greu Incwm a Chodi Tâl

Dywedwyd wrth aelodau y bydd y rhaglen archwilio perfformiad yn dilyn meysydd gwella presennol.  Fodd bynnag, mae’r weinyddiaeth newydd yn y Cyngor yn rhoi cyfle i adolygu sut y cyflawnir archwiliad perfformiad.

Yn nhermau’r ffi archwilio, dywedodd Matthew Coe y pennwyd y ffi Grant o £65,000 cyn ei fod yn hysbys y byddai Cyngor Caerdydd yn rhan o gynllun peilot y Llywodraeth ar archwilio grantiau a grantiau cydgyfeirio yr UE.  Y gobaith oedd y gellid gostwng y ffi ei hun.

Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod y Pwyllgor, nododd Matthew Coe na dderbyniodd yr awdurdod ad-daliad o’r ffi archwilio yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf.  Cytunodd Matthew Coe i roi rhagor o fanylion i Aelodau ynglŷn â hyn ar ôl y cyfarfod.

Nodwyd bod y ffi a godwyd am archwilio Awdurdod Porthladd Caerdydd yn sylweddol uwch na’r ffioedd a godwyd i Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd a Chydbwyllgor Archifau Morgannwg.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y ffi yn adlewyrchu maint a chymhlethdod archwilio pob un o'r sefydliadau hyn.  Mae Awdurdod Porthladd Caerdydd yn ymwneud â Bae Caerdydd a'u gyffiniau i gyd a bydd goblygiadau o ran rheoli asedau yn nhermau'r argae a seilwaith arall.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

11 : CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN CAERDYDD A'R FRO

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro.  Dywedodd Mathew Coe fod archwilio'r gronfa bensiwn yn syml heb elfen perfformiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod trefniant Cronfa Buddsoddi Cymru yn newydd ac ni chafodd y trefniadau hyn effaith sylweddol yn ystod y flwyddyn.  Nodwyd cynnydd bach yn y ffi archwilio.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

12 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar Gynllunio Arbedion yng Nghyngor Caerdydd.  Gofynnwyd i’r aelodau ystyried ymateb y rheolwyr i gynigion SAC ynglŷn â gwelliant.

Dywedwyd wrth Aelodau, yn ystod 2015/16, ymgymerodd SAC â gwaith ym mhob Cyngor er mwyn asesu digonolrwydd eu trefniadau ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli a llywodraethu.  Cafodd adroddiadau lleol eu dosbarthu a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016.  Daeth yr adroddiad ar gyfer Caerdydd i'r casgliad bod angen i'r Cyngor wella ei drefniadau ar gyfer cynllunio ariannol a datblygu cynlluniau cadarn er mwyn cefnogi cyflwyno ei gynigion ar gyfer arbedion yn amserol.

Cynhaliwyd adolygiad arall yn yr Hydref 2016 er mwyn penderfynu beth a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn y mae wedi ei ddysgu a sut mae wedi ymateb i'r cynigion ar gyfer gwelliant a amlinellir uchod.  At hyn, ymgymerwyd â sampl o dri chynnig am arbedion er mwyn edrych ar ddigonolrwydd y mecanweithiau cyflwyno sydd ar waith.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod gan y Cyngor ymagwedd cynllunio dryloyw ac effeithiol at arbedion sy'n cefnogi gwydnwch ariannol. Nodwyd bod hyn yn sefyllfa well na'r un yn 2015/16. Atodwyd yr adroddiad SAC llawn i'r adroddiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y cynigion canlynol ar gyfer gwelliant:

- Sicrhau y caiff yr holl gynigion ar arbedion eu datblygi'n llawn cyn dechrau'r flwyddyn, gydag amserlenni realistig pan gaiff y gyllideb flynyddol ei pennu;
- Datblygu Polisi Creu Incwm/Codi Tâl;
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng y Cynllun Datblygu Sefydliadol ac arbedion blynyddol

Crynhowyd ymateb y Cyngor i'r cynigion dros welliant yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod rhywfaint o waith paratoi wedi dechrau o ran Strategaeth Gyllideb 2018/19. Mae cyfarwyddiaethau yn datblygu cynigion cadarn o ran cyllidebau ac mae cerrig milltir a chamau gweithredu'n ofynnol er mwyn darparu barn ddeallus ar sut caiff yr arbedion cyllid eu cyflawni a hefyd amlygu unrhyw risgiau.

PENDERFYNWYD - Y nodir gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o ran Cynigion Arbedion ac ymateb y rheolwyr i'r cynigion am welliant.

13 : RHEOLI YMATEB I ADRODDIAD SAC AR LYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU AR NEWIDIADAU SYLWEDDOL I WASANAETHAU

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ran llywodraethu da wrth bennu newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymateb y rheolwyr i gynigion SAC ynglŷn â gwelliant a restrir yn yr adroddiad. Cyflwynwyd yr adroddiad gan Joe Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn ystod 2016, ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru ag asesiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor am bennu newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. Edrychwyd ar sampl o newidiadau yn y gwasanaeth, gan gynnwys y strategaeth gwastraff ddiwygiedig, modelau cyflawni amgen ar gyfer canolfannau hamdden, Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd a lleoliadau'r celfyddydau, yn eu tro.

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau, wedi'i gefnogi gan wella llywodraethu. Fodd bynnag, gellid cymhwyso trefniadau'n fwy cyson. Atodwyd adroddiad llawn SAC i'r adroddiad ar Atodiad A. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y ddau gynnig ganlynol er mwyn gwelliant:

- Sicrhau bod gwybodaeth sy'n cefnogi cynigion am newidiadau mewn gwasanaethau yn gyson o ran cynnwys opsiynau ac yn rhestru'r dulliau ar gyfer arfarnu'r opsiynau
- Rhestru trefniadau'n eglur ar gyfer monitro effaith pob newid yn y gwasanaeth

Cafodd y cynigion am welliant eu hadolygu a chawsant eu derbyn mewn egwyddor. Rhestrwyd ymateb fanwl a chamau gweithredu a awgrymwyd yr awdurdod yn Atodiad B i'r adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad yn fanwl. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod sut y mesurwyd effaith yn newidiadau i'r gwasanaeth, yn bennaf, yn nhermau'r effaith ar y newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Ystyriodd y swyddogion fod hwn yn fater pwysig a bod angen cadw pwyslais ar pam mae gwasanaethau'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd gofyn am ryw fath o ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cael dealltwriaeth o sut mae newidiadau i'r gwasanaeth yn effeithio arnynt.
  Gofynnwyd i'r Swyddogion ai'r 'model busnes 5 achos' yw'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer y Rhaglen Datblygu Sefydliadaol (ODP). Cadarnhaodd swyddogion bod yr ODP wedi mabwysiadau fersiwn o'r 'model busnes pum achos'. Amlygodd adroddiad SAC y broses sydd ar waith ar gyfer projectau mawr. Ystyriwyd y dylid mabwysiadu'r broses hefyd ar gyfer newidiadau y tu allan i'r ODP er mwyn sicrhau yr ystyrir yr ystod lawn o opsiynau fel rhan o'r broses gwerthuso.

PENDERFYNWYD - Y nodir gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o ran llywodraethu da wrth bennu newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth ac ymateb y rheolwyr i'r cynigion am welliant.

Rheoli'r Drysorlys

14 : RHEOLI'R TRYSORLYS

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiad sefyllfa a pherfformiad ar 31 Mai 2017.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol

15 : ARCHWILIAD MEWNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy'n rhoi diweddarid ar waith y Tîm Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Atodwyd yr adrodd ar gynnydd yn Atodiad A i'r adroddiad.

Dywedwyd wrth y rheolwyr mai'r mater allweddol sy'n codi o'r adroddiad ar gynnydd oedd y collwyd nifer sylweddol o ddiwrnodau gwaith yn ystod Chwarter 1, oherwydd absenoldeb salwch ac oherwydd y faith bod swydd archwilydd yn parhau'n wag, er gwaethaf ymdrechion i recriwtio'n allanol. Roedd atebion tymor byr gydag asiantaethau yn cael eu hystyried gyda'r bwriad o gynyddu nifer yr archwilwyr sydd ar gael er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni'r cynllun archwilio o hyn ymlaen.

Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid ei fod wedi cwrdd â'r Prif Weithredwr i drafod materion archwilio a rhoi gwybodaeth am y sgorau sicrwydd a'r diffiniadau argymhellion newydd. Gofynnwyd i'r aelodau nodi, oherwydd bod y Tîm Archwilio Mewnol yn dosbarthu adroddiadau sy'n defnyddio'r sgorau sicrwydd newydd, ni fydd y wybodaeth a roddir i'r Pwyllgor yn union gymaradwy. Felly, cynigwyd y caiff y sgôr sicrwydd flaenorol a'r sgôr

archwilio gyfwerth o fis Ebrill 2017 ymlaen eu cyfuno ar ddibenion dadansoddi o Chwarter 2 ymlaen.

Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau nodi gwaith y Tîm Ymchwiliadau a grynhowyd yn Atodiad B ac adran gohebiaeth y Pwyllgor Craffu yr adroddiad. Croesawyd crynodeb y gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu a restrir yn adran 4 yr adroddiad gan y Pwyllgor.

Awgrymodd yr Aelodau, o dan amgylchiadau cyfyngedig, lle y mae ysgolion wedi methu gweithredu argymhellion, y dylid gwahodd Penaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd Swyddogion, er bod trywyddau ymholi yn faterion i aelodau'r Pwyllgor eu hystyried, roedd themâu pryder a nodwyd ar draws nifer o ysgolion ac mae gwahoddiad i'r Cyfarwyddwr Addysg fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar y cynllun gwaith ar gyfer mis Medi 2017.

Nododd yr Aelodau nifer gymharol isel yr ymchwiliadau i faterion tai. Dywedodd y swyddogion fod y ffigwr yn cynrychioli dau fis cyntaf y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd y Tîm Ymchwiliadau yn dîm bach a chyfyngir arnynt gan yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Gofynnwyd i Swyddogion ystyried lefel berthnasol y manylder o ran argymhellion archwilio er mwyn llywio'r diweddariadau ar gynnydd yr Archwiliad o hyn ymlaen

PENDERFYNWYD – Bod cynnwys yr adroddiad a'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffyg o ran diwrnodau archwiliad yn cael eu nodi.

16 : ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2016-17

*Roedd Atodlen C Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y byddai'r cyhoedd yn cael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth eithriedig am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

*Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

*Y Cynghorydd Howells – Llywodraethwr Ysgol*

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2016/17. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r dull wedi'i fabwysiadu i archwilio aseiniadau ac fe'i manylodd ar y gwaith a gafodd ei wneud gan dimau archwilio yn ystod y 12 mis blaenorol.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

17 : GOHEBIAETH GRAFFU

Ni chyflwynwyd unrhyw Ohebiaeth Craffu rhwng y Cadeirydd a Chadeiryddion y Pwyllgor Craffu.

18 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – y nodir Cynllun Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio

19 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi'r Cynllun Gwaith.

20 : MATERION BRYS

Ni adroddwyd ar unrhyw faterion brys.

21 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 18 Medi 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm